YR ATODLEN

**Manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau**

## Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 2004

*Ceisiadau sy'n ymwneud â gorchmynion rheoli interim a therfynol*

**24.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 105(10) o Ddeddf 2004 (cais gan ATLl am orchymyn bod gorchymyn rheoli interim yn parhau mewn grym hyd nes byddir wedi penderfynu apêl).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn rheoli interim; a

(b) copi o'r hysbysiad o apêl o dan baragraff 24 o Atodlen 6 i Ddeddf 2004 yn erbyn gwneud gorchymyn rheoli terfynol.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ceisydd sydd wedi gwneud yr apêl berthnasol.